

ATODIAD A

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

ADRODDIAD YMGYNGHORI

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL - ADDYSG A CHYMORTH I DEULUOEDD

CANLYNIAD YR YMGYNGHORIAD I AGOR DARPARIAETH AR GYFER DISGYBLION AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY) SEFYDLU CANOLFAN ADNODDAU DYSGU (CANOLFAN ADNODDAU DYSGU) AR GYFER DISGYBLION AG ANHWYLDER AR Y SBECTRW AWTISTIG YN YSGOL GYNRADD TREMAEN

1. Diben yr adroddiad

- 1.1 Diben yr adroddiad cyhoeddus hwn yw rhoi gwybod am ganlyniad yr ymgynghoriad i agor darpariaeth ar gyfer disgyblion ADY gan sefydlu canolfan adnoddau dysgu ar gyfer disgyblion ag anhwylder ar y sbectrw awtistig yn Ysgol Gynradd Tremaen.

2. Cysylltiad ag amcanion llesiant corfforaethol/blaenoriaethau corfforaethol eraill

- 2.1 Mae'r cynnig hwn yn helpu i gyflawni'r amcanion llesiant corfforaethol canlynol o dan **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**:
 - **Cefnogi economi gynaliadwy lwyddiannus** - cymryd camau i wneud y fwrdeistref sirol yn lle gwyh i wneud busnes, byw, gweithio, astudio ac ymweld â hi, a sicrhau bod ein hysgolion yn canolbwyntio ar godi sgiliau, cymwysterau ac uchelgeisiau pawb yn y fwrdeistref sirol.
 - **Defnyddio adnoddau'n ddoethach** – sicrhau bod yr holl adnoddau (ariannol, corfforol, ecolegol, dynol a thechnolegol) yn cael eu defnyddio mor effeithiol ac effeithlon â phosibl a chefnogi'r gwaith o greu adnoddau ledled y gymuned a all helpu i gyflawni amcanion llesiant y Cyngor.

3. Cefndir

- 3.1 Ym mis Rhagfyr 2021, rhoddwyd cymeradwyaeth y Cabinet i gychwyn proses ymgynghori statudol i agor darpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY gan sefydlu canolfan adnoddau dysgu ar gyfer disgyblion ag anhwylder ar y sbectrw awtistig yn Ysgol Gynradd Tremaen.
- 3.2 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

4. Y broses ymgynghori

- 4.1 Er mwyn bwrw ymlaen â'r cynnig, cynhaliwyd ymarferion ymgynghori rhwng 6 Ionawr 2022 a 17 Chwefror 2022 yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol. Roedd copi o'r ddogfen ymgynghori ar gael yn ystod y cyfnod hwn ar wefan y Cyngor:

<https://democratic.bridgend.gov.uk/documents/g4137/Public%20reports%20pack%2014th-Dec-2021%2014.30%20Cabinet.pdf?T=10&LLL=0>

- 4.2 Roedd y ddogfen ymgynghori yn gwahodd safbwyntiau a barn i'w cyflwyno mewn perthynas â'r cynnig. Mae rhestr o'r rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw i'w gweld yn Atodiad 11.

5. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

- 5.1 Roedd pwyntiau allweddol o'r ymgynghoriad fel a ganlyn, ac mae'r manylion llawn wedi'u hatodi ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Cynhaliodd yr awdurdod lleol bedwar cyfarfod ymgynghori â rhanddeiliaid yn rhithiol gyda chynghor yr ysgol, staff, llywodraethwyr a rhieni yn Ysgol Gynradd Tremaen.

5.2 Ymgynghoriad y dysgwyr

Cyfarfu cyngor ysgol Ysgol Gynradd Tremaen yn rhithiol â chynrychiolwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar 17 Ionawr 2022 i drafod y cynnig. Ceir manylion llawn y trafodaethau a'r ymatebion/eglurhad a roddir i'r cyfarfod yn Atodiad 1 o'r Adroddiad Ymgynghori hwn.

Roedd prif bryderon y plant yn ymwneud â lleoliad yr ystafell ddosbarth, lle byddai'r plant yn chwarae, pa staffio fyddai yn y dosbarth, faint o blant fyddai yn y dosbarth, iechyd a diogelwch ac adnoddau. Esboniodd cynrychiolwyr y Cyngor leoliad yr ystafell ddosbarth, gofynion iechyd a diogelwch a'r adnoddau sydd eu hangen. Gwnaeth cynrychiolwyr y Cyngor hefyd roi sicrwydd i'r plant y byddai'r plant newydd yn teimlo bod croeso iddynt.

5.3 Ymgynghoriad â'r staff

Cynhaliwyd cyfarfod ymgynghori rhithiol gyda staff Ysgol Gynradd Tremaen. Ceir manylion llawn y trafodaethau a'r ymatebion/eglurhad a roddwyd yn y cyfarfod yn Atodiad 2 o'r Adroddiad Ymgynghori hwn.

Codwyd cwestiynau'n ymwneud yn bennaf â staffio ar gyfer y ganolfan adnoddau dysgu a'r meini prawf mynediad. Dywedodd y staff y byddai'r ganolfan adnoddau dysgu yn gaffaeliad i'r ysgol. Esboniodd cynrychiolwyr y Cyngor y broses recriwtio a'r gofynion staffio.

5.4 Ymgynghoriad y corff llywodraethu

Cynhaliwyd cyfarfod ymgynghori rhithiol gyda chynrychiolwyr o lywodraethwyr Ysgol Gynradd Tremaen ar 17 Ionawr 2022. Ceir manylion llawn y trafodaethau a'r ymatebion/eglurhad a roddwyd yn Atodiad 3 o'r Adroddiad Ymgynghori hwn.

Codwyd cwestiynau yn ymwneud yn bennaf â'r gwaith adeiladu, staffio ac ymgysylltu â rhieni.

Esboniodd cynrychiolwyr y cyngor fod y gwaith adeiladu yn mynd yn unol â'r cynllun a gwnaethant gynnig cyfarfod gydag arweinyddiaeth yr ysgol i drafod amserlenni'r gwaith adeiladu. Esboniwyd y byddai'r gwaith o recriwtio staff yn cael ei wneud mewn partneriaeth â'r ysgol a bod cyfarfod ymgynghori'n cael ei gynnal gyda rhieni yr un diwrnod ag ymgynghoriad y corff llywodraethu.

5.5 Ymgynghoriad y rhieni

Cynhaliwyd cyfarfod ymgynghori rhithiol gyda rhieni yn Ysgol Gynradd Tremaen ar 17 Ionawr 2022. Ceir manylion llawn y trafodaethau a'r ymatebion/eglurhad a roddwyd yn y cyfarfod yn Atodiad 4 o'r Adroddiad Ymgynghori hwn.

Codwyd cwestiynau yn ymwneud yn bennaf â meini prawf a'r gymhareb staffio. Eglurodd cynrychiolwyr y Cyngor y meini prawf ac mai'r gymhareb staffio fyddai 3:8 sef un athro a dau swyddog cymorth dysgu i 8 o blant.

5.6 Crynodeb o'r sylwadau ysgrifenedig

Derbyniwyd un eitem o ohebiaeth uniongyrchol yn ystod y cyfnod ymgynghori. Gweler Atodiad 5 o'r Adroddiad Ymgynghori hwn am fanylion ac ymatebion/eglurhad.

Anfonwyd ymateb at anfonwr yr eitem o ohebiaeth yn diolch iddynt am eu llythyr ac yn datgan y byddai eu sylwadau'n cael eu hystyried.

6. Barn Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

- 6.1 Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgol y cynnig. Gweler Atodiad 6 o'r Adroddiad Ymgynghori hwn i weld y manylion llawn. Mae Estyn wedi dod i'r casgliad fel a ganlyn:

"Barn Estyn yw bod y cynnig hwn yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal. Mae'r cyngor wedi darparu sail resymegol glir ar gyfer y cynnig."

7 Asesiadau Effaith

- 7.1 Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned fel rhan o'r cam ymgynghori ac fe'i cyhoeddwyd fel rhan o'r ddogfen ymgynghori. Nid yw'n cael ei ystyried yn debygol y bydd y cynnig yn effeithio'n anghymesur ar unrhyw un â nodweddion gwarchodedig. Bydd angen staff ychwanegol ar gyfer y ganolfan adnoddau dysgu ar gyfer disgyblion ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig fel gyda'r canolfannau adnoddau dysgueraill o'r fath - un athro arbenigol a dau swyddog cymorth dysgu. Ar ôl adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'r asesiad wedi'i ddiweddarau ac mae'r casgliad yn parhau i fod yn ddilys (gweler Atodiad 7 yr adroddiad ymgynghori hwn).

- 7.2 Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gymraeg fel rhan o'r cam ymgynghori (gweler Atodiad 8 yr adroddiad ymgynghori hwn). Deuthum i'r casgliad na fyddai dim effaith sylweddol ar y ddarpariaeth Gymraeg a brofir ar hyn o bryd gan ddysgwyr yn yr ysgol ac y byddai'r Gymraeg yn parhau i gael ei haddysgu drwy'r cwricwlwm fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.
- 7.3 Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel rhan o'r cam ymgynghori (gweler Atodiad 9 yr adroddiad ymgynghori hwn). Daeth yr asesiad i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o effeithio'n anghymesur ar unrhyw grŵp gwarchodedig. Ar ôl adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'r casgliad yn parhau i fod yn ddilys.
- 7.4 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi cael ei hystyried wrth lunio'r cynnig (gweler Atodiad 10).

8 Goblygiadau Ariannol

- 8.1 Byddai'r cyllid ar gyfer y ganolfan adnoddau dysgu yn cael ei ddyrannu drwy gyllideb ddirprwyedig yr ysgol brif ffrwd, drwy ddyraniad fformiwla ariannu'r ysgol, gan ddefnyddio cyfuniad o ddyraniad dosbarth a'r elfen uned a bwysolwyd ar sail oedran y disgybl.
- 8.2 Byddai lefelau ariannu yn deillio o anghenion staffio presennol tybiannol ac maent yn seiliedig ar gyflog un athro a dau aelod o staff cymorth. Byddai cyllid untro ar gyfer y costau sefydlu yn £10,000.
- 8.3 Fel rhan o Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2021-2022, cymeradwywyd pwysau cyllidebol o £82,000 ar gyfer canolfan adnoddau dysgu/dosbarth ar gyfer disgyblion ag anhwylder ar y sbectwm awtistig ysgol gynradd ychwanegol i ddarparu ar gyfer plant Cyfnod Allweddol 2. Defnyddir y gyllideb hon i ariannu'r Ganolfan Adnoddau Dysgu, gan gynnwys y costau sefydlu, yn Ysgol Gynradd Tremaen pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen.

9. Y broses statudol wrth benderfynu ar gynigion

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amserlen dros dro:

Gweithgaredd	Dyddiad
Cyfnod ymgynghori lle rydym yn croesawu eich barn a'ch sylwadau ar y cynnig*.	6 Ionawr 2022-17 Chwefror 2022
Adroddiad Ymgynghori Drafft i'r Cabinet ar ganlyniadau'r ymgynghoriad.	14 Mehefin 2022
	15 Mehefin 2022

Gweithgaredd	Dyddiad
Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet, cyhoeddi yr Adroddiad Ymgynghori ar wefan Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, copïau caled ar gael ar gais ('yn amodol ar y cyfnod galw i mewn fel yr amlinellir yn Rhan 4 Rheolau Gweithdrefn cyfansoddiad y Cyngor').	
Os cytunir arno gan y Cabinet, cyhoeddir hysbysiad statudol a bydd cyfnod o 28 diwrnod i gyflwyno unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig yn ysgrifenedig.	Mehefin 2022
Os nad oes gwrthwynebiad gall Cabinet benderfynu a ddylid bwrw ymlaen ai peidio. Os oes unrhyw wrthwynebiadau, bydd Adroddiad Gwrthwynebiadau yn cael ei anfon at y Cabinet i'w ystyried a'i benderfynu yn dilyn hynny. Yna bydd yr adroddiad wedi'i gymeradwyo yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a bydd copïau caled o'r adroddiad ar gael ar gais.	Medi 2022
Cyhoeddi'r llythyr penderfyniad. Rhaid i'r llythyr penderfyniad fod ar gael o fewn 7 diwrnod i ddyddiad y penderfyniad. Felly, byddai'r llythyr yn cael ei gyhoeddi 'yn amodol ar y cyfnod galw i mewn'.	Medi 2022
Gweithredu (hynny yw, yn amodol ar ganlyniad llwyddiannus y gweithgareddau a nodir yn y tabl hwn).	Tymor yr Hydref 2022

**Mae Copïau Caled o'r adroddiad hwn ar gael ar gais.*

Swyddog Cyswllt: Y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd (Uned Cymorth Cyfarwyddiaeth)

Ffôn: (01656) 643643

E-bost: edsu@bridgend.gov.uk

Cyfeiriad Post Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr,
CF31 4WB

ATODIAD 1



Cyfarfod Ymgynghori Ysgol Gynradd Tremaen – Cyngor Ysgol 17 Ionawr 2022 14:15-14:45

Presennol: Staff y Cyngor -2
Pennaeth-1
Dysgwyr- 17

Cyflwynodd Rheolwr y Grŵp Cymorth i Ddysgwyr y sesiwn ymgynghori a nodi diben y cyfarfod, natur a phroses yr ymgynghoriad ac amlinellodd y cynnig

<u>Cwestiynau/Materion</u>	<u>Ateb/Sylwadau</u>
Ble fyddai'r ystafell ddosbarth newydd?	Disgrifiwyd y lleoliad a sut y byddai'r lle presennol yn cael ei newid.
Sut olwg fyddai ar yr ystafell ddosbarth?	Disgrifiwyd y gwahanol feysydd fel arfer mewn canolfan adnoddau dysgu addysg cyfathrebu ac adnoddau - man gwaith, ardal synhwyraidd, ardal chwarae er enghraifft. Esboniwyd y bydd y drws yn y gofod presennol yn cael ei llenwi â briciau ac y bydd un fynedfa/allanfa. Bydd ffenestri'n cael eu gosod ac mae'r awdurdod lleol wedi rhoi gwybod i'r ysgol ble mae angen i'r rhain fod.
Ble fyddai'r disgyblion yn chwarae?	O fewn ardal chwarae awyr agored Blwyddyn 2/3. Byddai rhai disgyblion yn defnyddio eu hardal chwarae grŵp blwyddyn prif ffrwd.
Beth petai mwy nag wyth o blant yn dod i'r dosbarth?	Mae gan yr awdurdod lleol banel fel eu bod bob amser yn gwybod pwy a faint o ddisgyblion sy'n dod i'r ganolfan adnoddau dysgu. Mae'r awdurdod lleol weithiau'n gofyn i ddosbarthiadau gymryd naw disgybl ond darperir cymorth ychwanegol.
Ble fydd y toiledau ar gyfer disgyblion y Ganolfan?	Bydd y disgyblion yn defnyddio toiledau Blwyddyn 5/6.

A fydd digon o adnoddau, er enghraifft, tywod?	Bydd yr awdurdod lleol yn sicrhau bod digon o arian ar gael i brynu'r hyn sydd ei angen ar y dosbarth.
A fydd y disgyblion yn cael yr un llyfrau â ni?	Bydd gan y dosbarth grwpiau blwyddyn cymysg ac ystod gallu a gallai rhai disgyblion fod yn defnyddio'r un llyfrau â'u ffrindiau yn y brif ffrwd.
Ble fydd yr ystafell gotiau?	Penderfynir ar hyn ond gobeithiwn y bydd lle yn yr ystafell ddosbarth.
Ble fydd y sincipiau?	Ar waelod yr ystafell bresennol.
Ble a phryd fydd y disgyblion yn cael eu cinio?	Efallai y bydd angen amser cinio ac amser egwyl/trefniadau ar wahân ar rai disgyblion gan y gallent deimlo wedi'u llethu. Bydd disgyblion eraill yn defnyddio'r un neuadd ginio ac yn cael amser egwyl ar yr un pryd â disgyblion prif ffrwd.
Faint o athrawon fydd yn y dosbarth	Un athro.
Sut bydd yr athrawon newydd yn gwybod i wneud y rheiddiaduron yn ddiogel i ddisgyblion?	Byddwn yn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o ganllawiau iechyd a diogelwch.
A fydd y disgyblion yn y ganolfan yn gwneud yr un gwaith pwnc â'u grŵp blwyddyn?	Penderfynir ar hyn. Rhoddwyd enghreifftiau o ganolfannau eraill lle maent yn dilyn yr un pwnc a rhai lle maent yn dilyn eu pwnc eu hunain, y cytunir arno.
Ydyn ni'n mynd i helpu'r disgyblion newydd?	Byddwn, byddwn i gyd yn croesawu'r disgyblion newydd ac yn eu helpu sut bynnag y gallwn.

ATODIAD 2



Cyfarfod Ymgynghori Ysgol Gynradd Tremaen – staff 17 Ionawr 2022 15:30-16:15

Presennol: Staff y Cyngor -2
Athrawon -18

Cyflwynodd Rheolwr y Grŵp Cymorth i Ddysgwyr y sesiwn ymgynghori a nodi diben cyfarfod, natur a phroses yr ymgynghoriad ac amlinellodd y cynnig.

<u>Cwestiynau/Materion</u>	<u>Ateb/Sylwadau</u>
Beth yw'r meini prawf mynediad?	Mae diagnosis gan y GIG yn ofyniad sylfaenol ar gyfer mynediad ynghyd â rhestr wirio meini prawf. Esboniwyd integreiddio gwrthdro a sut mae'n gweithio.
Beth yw'r broses leoli ar gyfer dyrannu lleoedd?	Rhodddwyd trosolwg o'r broses flynyddol o wneud cais am leoliad arbenigol a gynhelir bob blwyddyn ym mis Tachwedd gyda phaneli dilynol yn dechrau ym mis Rhagfyr a mis Mawrth.
Mae angen cynllunio ar gyfer y dyfodol fel bod lle i ddisgyblion yn uned arsylwi Tremaen ar hyn o bryd y gallai fod angen canolfan adnoddau dysg arnyn nhw yn ystod y blynyddoedd nesaf.	Cytunwyd bod hwn yn ymarfer pwysig y mae angen iddo ddechrau cyn gynted ag y daw'r broses ymgynghori i ben.
Mae'n gyfle cyffrous i'r ysgol.	Roedd pawb yn cytuno.
Eglurwyd y staffio - un athro, dau aelod o staff cymorth. Byddai'r awdurdod lleol yn awyddus i recriwtio cyn gynted â phosibl i ddarparu hyfforddiant perthnasol.	
Mynegodd staff anawsterau mewn blynyddoedd blaenorol lle bu'n rhaid i ddisgyblion bontio i ysgolion eraill. Nodwyd y cafwyd adborth cadarnhaol iawn yn gyffredinol gan staff mewn canolfannau a phrif ffrwd yn yr ysgol.	
Dywedodd y staff y byddai'n gaffaeliad i'r ysgol ac yn gadarnhaol iawn i les y plant a'r rhieni.	

ATODIAD 3



Cyfarfod Ymgynghori Ysgol Gynradd Tremaen gyda Chorff Llywodraethu'r Ysgol 17 Ionawr 2022 16:30-17:30

Presennol: Staff y Cyngor -2
Pennaeth
Llywodraethwyr Ysgol -3

Cyflwynodd Rheolwr y Grŵp Cymorth i Ddysgwyr y sesiwn ymgynghori a nodi diben y cyfarfod ac esboniodd natur a phroses yr ymgynghoriad ac amlinellodd y cynnig.

Cwestiynau/Materion	Ateb/Sylwadau
A oes sicrwydd gan yr ALI y bydd y gwaith adeiladu sydd ei angen yn digwydd?	Darparwyd costau ac mae angen amlinellu'r gwaith sydd ei angen. Bydd cyfarfod yn cael ei gynnal gydag arweinwyr ysgolion i sicrhau na fydd y gwaith adeiladu y cytunwyd arno yn cael effaith negyddol ar y dysgwyr presennol.
Mynegwyd pryderon ynghylch codi disgwyladau rhieni y byddai eu plentyn yn cael mynediad awtomatig i ganolfan adnoddau dysgu fel disgybl yn Tremaen.	Eglurwyd bod proses ymgeisio am leoliad a meini prawf y mae'n rhaid eu bodloni. Un o'r rhain yw diagnosis o anhwylder ar y sbectwm awtistig gan y GIG.
Gwnaethpwyd ymholiadau ynghylch staffio a chyfle i uwchsgilio'r staff presennol	Mae gan bob canolfan un athro arbenigol cyswllt a fydd yn cefnogi, yn nodi cyfleoedd hyfforddi ac yn eu bodloni pryd bynnag y bo modd.
A all yr awdurdod lleol fodloni amserlenni?	Bydd dyddiadau'r ymgynghoriad yn cael eu bodloni. Mae'r awdurdod lleol yn hyderus y gallwn fodloni'r amserlenni y cytunwyd arnynt.
Dywedwyd nad yw'r gwaith adeiladu wedi dechrau hyd yma. Pwysleisiodd ei bod yn bwysig bod gan staff ystafell staff ddigonol yn yr ysgol ac na ddylai gwaith adeiladu effeithio ar hyn.	
Sut yr ydym yn cyrraedd rhieni yn ystod y broses ymgynghori?	Mae'r ymgynghoriad yn fyw ar wefan y Cyngor ac mae wedi'i rannu â'r holl randdeiliaid perthnasol.

Mae'r cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r rhieni ynglŷn ag ymgynghori wedi bod yn dda iawn.	
Mewnbwn locwm lleferydd ac iaith i bob canolfan. Mae gan yr awdurdod lleol gysylltiad da â Swyddog Arweiniol Clinigol Addysgol Dynodedig (DECLO) a byddai'n hysbysu cydweithwyr iechyd yn ffurfiol pe bai'r ddarpariaeth yn cael ei sicrhau.	
Bydd recriwtio'n cael ei wneud mewn partneriaeth â'r ysgol.	

ATODIAD 4



**Cyfarfod Ymgynghori Ysgol Gynradd
Tremaen gyda Rhieni
17 Ionawr 2022
17:30-18:00**

Presennol: Staff y Cyngor -2
Pennaeth
Rhieni - 2

Cyflwynodd Rheolwr y Grŵp Cymorth i Ddysgwyr y sesiwn ymgynghori a nodi diben y cyfarfod ac esboniodd natur a phroses yr ymgynghoriad ac amlinellodd y cynnig.

<u>Cwestiynau/Materion</u>	<u>Ateb/Sylwadau</u>
A oes angen diagnosis o Anhwylder ar y sbectwm awtistig?	Oes, ynghyd â meini prawf eraill.
Cwestiynwyd y meini prawf.	Rhodddwyd trosolwg o'r rhestr wirio meini prawf.
Soniwyd am yr angen am gynllunio ar gyfer y dyfodol i sicrhau parhad y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion presennol Tremaen.	
Beth yw'r gymhareb staffio?	Y gymhareb yw 3:8. Un athro a dau Swyddog Cymorth i 8 disgybl.
Disgrifiwyd y broses ymgeisio arbenigol.	

ATODIAD 5

Gohebiaeth uniongyrchol a dderbyniwyd:

Hoffwn gofrestru fy nghefnogaeth lwyr i'r LRB Cyfnod Allweddol 2 newydd arfaethedig ar gyfer myfyrwyr ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig yn Ysgol Gynradd Tremaen. Mae mawr ei angen a bydd yn gwella addysg a bywydau'r myfyrwyr a leolir yno, eu rhieni, disgyblion eraill yn yr ysgol a chymuned ehangach yr ysgol. Bydd integreiddio disgyblion y dosbarth newydd â'r disgyblion prif ffrwd o fudd i bawb. Ni allaf weld unrhyw anfanteision posibl o ran agor y dosbarth newydd.

Mae fy merch yn bum mlwydd oed ac mae hi'n awtistig. Ar hyn o bryd mae hi ym Mlwyddyn 1 yn un o'r Dosbarthiadau Arsylwi yn Ysgol Tremaen ac rwyf wedi bod yn poeni am ddod o hyd i ddarpariaeth addas iddi pan fydd hi'n cyrraedd diwedd Blwyddyn 2 yn ei Dosbarth presennol oherwydd heb y dosbarth newydd, byddai'n rhaid iddi newid i ysgol newydd. Rydym yn hapus gydag Ysgol Tremaen a byddai'n gwbl ddelfrydol iddi aros yn yr ysgol yn y ddarpariaeth anhwylder ar y sbectrwm awtistig arbenigol ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 felly rydym yn gobeithio'n fawr y bydd y dosbarth newydd arfaethedig yn mynd yn ei flaen.

Ymateb yr Awdurdod Lleol:

Diolch am eich e-bost, bydd eich barn yn cael ei chynnwys yn ein hadroddiad i'r Cabinet.

ATODIAD 6

Ymateb Estyn i gynnis i sefydlu darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn Ysgol Gynradd Tremaen Cyflwyniad

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori at Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn mewn perthynas â materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, dim ond ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion y bydd Estyn yn rhoi eu barn. Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgol y cynnis ac wedi cynhyrchu'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigydd.

Crynodeb / Casgliad

Mae'r cynnis gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, sef sefydlu dosbarth adnoddau dysgu ar gyfer uchafswm o wyth disgybl ag anhwylder y sbectrwm awtistig yn Ysgol Gynradd Tremaen. Os yw'n llwyddiannus, byddai'r cynnis yn dod i rym ar 1 Medi 2022.

Mae Estyn o'r farn fod y cynnis hwn yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal.

Disgrifiad a manteision

Mae'r Cyngor wedi rhoi rhesymeg glir ar gyfer y cynnis. Mae'r cyngor wedi gweld cynnydd yn y galw am ddarpariaeth ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r Cyngor wedi cwblhau adolygiad strategol ac wedi nodi bod angen dosbarth adnoddau dysgu cyfnod allweddol 2 ar gyfer plant ag ASA o fewn clwstwr Brynteg. Byddai'r cynnis yn galluogi disgyblion i elwa ar arbenigedd a chyfleusterau arbenigol mewn lleoliad prif ffrwd yn agos at eu cartrefi. Byddai'r cynnis yn galluogi disgyblion sydd yn y dosbarth arsylwi ac asesu sefydledig ar hyn o bryd i gael eu hystyried ar gyfer lle yn y dosbarth adnoddau dysgu heb fod angen iddynt symud ysgol.

Mae'r cynnis yn cynnwys amserlen briodol yn amlinellu dyddiadau allweddol o'r cyfnod ymgynghori i'r dyddiad gweithredu arfaethedig. Mae'r cynnis yn amlinellu'n briodol ddwy fantais allweddol, sef cynyddu'r adnoddau sydd ar gael o fewn yr awdurdod lleol i fodloni'r galw am leoedd ar gyfer disgyblion ag ASA a sefydlu darpariaeth ASA ar lefel gynradd. Nid yw'r cynnis yn nodi unrhyw anfanteision rhagweladwy. Mae'r cynnis yn ystyried dewisiadau eraill o ran y cynnis; fodd bynnag, nid oes dadansoddiad manwl o'r dewisiadau eraill hyn sy'n galluogi'r darlennydd i ddeall yn llawn pam maent wedi cael eu diystyru. Nid yw'n ymddangos bod y Cyngor wedi nodi unrhyw risgiau yn gysylltiedig â'r cynnis. Nid oes angen unrhyw waith adeiladu mawr ar y cynnis, ond mae'n ymddangos bod angen addasu adeiladau presennol ar safle Ysgol Gynradd Tremaen. Mae'r cynnis yn cynnwys gwybodaeth ddigonol am yr addasiadau sydd eu hangen, a ph'un a fydd yr addasiadau hyn i'r adeilad yn diwallu anghenion disgyblion ag ASA, er enghraifft anghenion synhwyraidd. Mae'r cynnis yn datgan bod yr adeiladau ysgol presennol yn weithredol ond bod angen gwaith atgyweirio neu ddisodli mawr yn y tymor byr i'r tymor canolig (tair blynedd). Mae'n ymddangos bod y Cyngor wedi neilltuo'r cyllid sydd ei angen ar gyfer y costau sefydlu cychwynnol. Nid yw'r cynnis yn ddigon clir ynglŷn â'r costau a'r trefniadau cyllid gwirioneddol, gan gyfeirio at gost sefydlu untro o £10,000 a dyraniad cyllideb o £82,000. Byddai'r cynnis yn elwa ar fwy o wybodaeth am drefniadau cyllid ar gyfer y ddarpariaeth, er enghraifft p'un a fyddai'r dyraniad cyllideb ar gyfer disgyblion sy'n cael eu derbyn i'r dosbarth adnoddau dysgu yn fwy na'r rhai yn yr ysgol brif ffrwd oherwydd eu

hanghenion dysgu ychwanegol, a'r angen am gymorth ac adnoddau ychwanegol. Archwiliwyd trefniadau teithio dysgwyr yn briodol, ac mae'r cynnig yn cydnabod bod angen ystyried y dulliau teithio mwyaf priodol ar gyfer plant ag ASA a fyddai'n defnyddio'r ddarpariaeth. Mae'n ymddangos nad yw'r cynnig yn cael unrhyw effaith sylweddol ar unrhyw leoedd dros ben yn yr awdurdod lleol. Mae'r cynnig, yn ddefnyddiol, yn cynnwys niferoedd rhagamcanol o Ysgol Gynradd Tremaen a'r ysgolion cynradd eraill o fewn y clwstwr. Mae'n ymddangos bod ysgolion cynradd eraill yn y clwstwr yn tyfu tra bod nifer fach o leoedd dros ben o hyd yn Ysgol Gynradd Tremaen. Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y cyngor yn cynnwys amcan i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid yw'r cynnig yn cyfeirio at sut bydd yn effeithio ar yr amcan hwn yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Ni chynhaliwyd Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb eto ar y cynnig hwn. Fodd bynnag, mae'r asesiad sgrinio effaith cychwynnol yn awgrymu na fydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar unrhyw grwpiau o bobl â nodweddion gwarchodedig. Mae'n ymddangos bod y cynnig yn darparu cyfleoedd effeithiol i randdeiliaid, sefydliadau ac aelodau'r cyhoedd ymateb. Mae hyn yn cynnwys cyfarfod â'r cyngor ysgol, staff, rhieni a llywodraethwyr a allai gael eu heffeithio'n uniongyrchol.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Barnwyd bod perfformiad presennol a rhagolygon gwella yn Ysgol Gynradd Tremaen yn ddigonol gan Estyn adeg yr arolygiad diwethaf yn 2016. Tynnwyd yr ysgol o arolygiadau dilynol Estyn yn ddiweddarach yn 2018 ar ôl gwelliannau priodol o ran yr argymhellion arolygu. Nid yw'r cynnig hwn yn gwneud unrhyw gyfeiriad penodol at adroddiad Estyn, nac yn ei ystyried. Prif dystiolaeth y cynnig ar gyfer perfformiad presennol yr ysgol yw Adroddiad Categoriaddio Cenedlaethol Consortiwm Canolbarth y De 2019/20. Mae'r adroddiad hwn yn gadarnhaol iawn ac yn rhoi'r ysgol yn y categori cymorth gwyrdd. Mae'r cynnig yn rhoi ystyriaeth briodol i'r effaith bosibl ar ansawdd y deilliannau a'r ddarpariaeth. Mae'r adroddiad yn awgrymu nad yw'n debygol y bydd unrhyw effaith ar ddeilliannau, darpariaeth nac arweinyddiaeth a rheolaeth yn yr ysgol, ac mae'n datgan bod ansawdd yr arweinyddiaeth yn rhagorol. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod y cynnig wedi ystyried effaith y cynnydd mewn staff addysgu a chyflwyno cyfleuster arbenigol ar yr arweinyddiaeth a rheolaeth yn yr ysgol.

Mae'n ymddangos bod y cynnig yn sicrhau y bydd plant ag ASA yn gallu manteisio ar y cwrwllwm ysgolion cynradd llawn. Mae'r cynnig yn datgan mantais lleoli'r ddarpariaeth mewn lleoliad prif ffrwd, sy'n galluogi disgyblion i elwa ar gyfuniad priodol o ddarpariaeth arbenigol a phrif ffrwd.

Mae'r cynnig yn ystyried safonau presennol yn yr ysgol yn briodol, a sut mae'n cymharu ag ysgolion tebyg a chyfartaleddau Cymru. Mae'r cynnig yn datgan bod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da neu well ar draws yr ysgol. Mae'r cynnig yn argymhell cynnydd addas yn nifer y staff addysgu a'r staff cymorth, gan ddarparu'r arbenigedd angenrheidiol i'r dosbarth adnoddau dysgu a allai fod o fudd i ddosbarthiadau prif ffrwd hefyd. Nid yw'n glir yn y cynnig sut bydd yr aelodau staff ychwanegol hyn yn cael eu recriwtio. Nid yw'r cynnig yn cyfeirio at unrhyw hyfforddiant parhaus y gallai fod ei angen ar staff ysgol gyfan i ddatblygu dealltwriaeth ac ymateb yn briodol i anghenion plant ag ASA. Hefyd, mae'n debygol y bydd angen datblygu dealltwriaeth o ASA gyda disgyblion prif ffrwd.

Mae Estyn yn ymwybodol o gynigion tebyg ledled y sir yn gysylltiedig ag ADY, a theimlwn y byddai'n fuddiol cynnwys fframwaith i gefnogi'r gweithredu a'r cymorth parhaus â sicrhau ansawdd.

Ymatebion/eglwurhad yr awdurdodau lleol i'r materion cryno a godwyd:

Mewn ymateb i'r cwestiwn a godwyd gan Estyn ynghylch pam y diystyrwyd y dewisiadau amgen, mae'r canolfannau adnoddau dysgu ar gyfer disgyblion ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig yn yr ysgolion hynny yn llawn a dyna pam mae angen wedi codi i agor canolfan arall i gynyddu capasiti.

Bydd dyraniad y gyllideb ar gyfer disgyblion a dderbynnir i'r ganolfan yn gyfuniad o ddyraniad dosbarth a'r cyllid elfen uned a bwysolwyd ar sail oedran y disgybl y mae pob disgybl yn ei dderbyn.

Gan gyfeirio at Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP), ceir Asesiad Iaith Gymraeg yn Atodiad 8 yr adroddiad hwn.

Ceir Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn Atodiad 9 yr adroddiad hwn. Ni fydd y cynnig hwn yn cael effaith negyddol ar unrhyw grwpiau o bobl â nodweddion gwarchodedig.

Mae'r tîm arweinyddiaeth eisoes yn goruchwyllo'r ganolfan yn Ysgol Gynradd Tremaen. Y cyfrifoldeb rheoli llinell ychwanegol fyddai un athro a dau swyddog cymorth. Bydd y staff hyn yn cael eu recriwtio mewn partneriaeth â'r ysgol a'r awdurdod lleol.

Mae'r awdurdod lleol wedi ymrwmo i godi ymwybyddiaeth a hyfforddiant parhaus ar gyfer yr holl staff mewn perthynas ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig. Mae gan aelod o uwch dîm arweinyddiaeth ADY yr awdurdod lleol gyfrifoldeb penodol dros fonitro a sicrhau ansawdd Canolfannau adnoddau dysgu ar gyfer disgyblion ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig.

ATODIAD 7

Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Mae hwn wedi'i ddiweddarau yn dilyn yr ymgynghoriad.

Enw'r cynnig:

Cynnig i sefydlu Canolfan Adnoddau Dysgu yn Ysgol Gynradd Tremaen ar gyfer uchafswm o wyth disgybl ag Anhwylder ar y sbectrwm Awtistig o 1 Medi 2022.

Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad?

Cabinet

Pwy sydd wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynnig?

Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd

Rheolwr Grŵp Cymorth i Ddysgwyr

Nodau ac amcanion: Y ddarpariaeth anhwylder ar y sbectrwm awtistig yn Ysgol Gynradd Tremaen.

Camau allweddol: Gweithdrefn statudol i sefydlu canolfan adnoddau dysgu yn Ysgol Gynradd Tremaen ar gyfer uchafswm o wyth disgybl ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig yn nhymor yr hydref 2022.

Canlyniadau disgwylidig: Sefydlu canolfan adnoddau dysgu ar gyfer disgyblion ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig gyda'r bwriad o'i rhoi ar waith yn nhymor yr hydref 2022.

Pwy fydd yn cael eu heffeithio: Staff, llywodraethwyr, disgyblion, rhieni a'r gymuned?

Tua faint o bobl yr effeithir arnynt: Ychydig iawn o bobl y mae'r cynnig hwn yn effeithio arnynt. Bydd staff ychwanegol, un athro arbenigol a dau swyddog cymorth dysgu.

Dyddiad y disgwylir y penderfyniad: Medi 2022.

Cwmpas/pwyslais yr asesiad: Ystyried:

- Ansawdd a safonau presennol mewn addysg
- Targedau blaenoriaeth ysgolion (yn y datganiad gweithredu)
- Y ddarpariaeth bresennol o anghenion dysgu ychwanegol (ADY)
- Perthynas yr ysgol â rhanddeiliaid.
- Effaith bosibl cyflwyno'r cynnig ar ddisgyblion a staff.

- Effaith bosibl ar y gymuned.
- Effaith bosibl ar nodweddion gwarchodedig (a amlinellir yn yr Asesiad Effaith).

Data a/neu ymchwil perthnasol:

- Mae'r tabl canlynol yn darparu amcanestyniad pum mlynedd o boblogaeth disgyblion ar gyfer Ysgol Gynradd Tremaen.

Blwyddyn /Year	M1 Oed / Age 2 - 3	M2 Oed / Age 3 - 4	D Oed / Age 4 - 5	1 Oed / Age 5 - 6 98%	2 Oed / Age 6 - 7 98%	3 Oed / Age 7 - 8 93%	4 Oed / Age 8 - 9 97%	5 Oed / Age 9 - 10 96%	6 Oed / Age 10 - 11 98%	Cyfanswm /Total 2-11	Cyfanswm /Total 4-11
2021	12	54	70	58	39	58	63	62	58	474	408
2022	11	56	54	69	57	36	56	60	61	460	393
2023	10	59	56	53	67	53	35	54	59	446	377
2024	10	59	59	55	52	63	51	34	53	436	367
2025	10	59	59	58	54	48	61	49	33	431	362
2026	10	59	59	58	57	50	47	58	48	446	377

